

## **P-05-1013 Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Peter Phillips, ar ôl casglu cyfanswm o 189 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi pryd y bydd perfformiadau cerddoriaeth fyw yn gallu ailddechrau ar ôl i'r cyfnod cloi ddod i ben. O ganlyniad, ni all unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth fyw yng Nghymru ennill bywoliaeth. Mae'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth yn dod i ben ar 17 Awst. Ar ôl y dyddiad hwnnw, os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wahardd perfformiadau cerddoriaeth fyw, dylai fod yn orfodol i'r Llywodraeth ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i unigolion hunangyflogedig yng Nghymru sy'n ennill bywoliaeth yn y diwydiant hwn.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru